

Hysbysiad Preifatrwydd - Oedolyn

1. Cyflwyniad

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol ar gyfer pobl sy'n cael gwasanaethau gan Novus Cambria.

Mae fersiwn cryno o'r polisi hwn ar gael ar gais gan staff Novus Cambria, neu ar www.novuscambria.ac.uk/data-protection

Rydym yn adolygu ein gwybodaeth breifatrwydd yn rheolaidd ac yn ei diweddarau lle bo'n briodol.

Mae'r hysbysiad hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2. Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae Novus Cambria yn rhan o'r Grŵp LTE. Rydym wedi ymrwymo i warchod preifatrwydd a diogelwch gwybodaeth bersonol. Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio'r ffordd y byddwn yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol yn unol â chyfreithiau diogelu data.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddogfen hon neu eich data personol, gallwch chi neu eich cynrychiolydd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, neu gallwch holi unrhyw un o staff Novus Cambria i wneud hyn ar eich rhan:

- Grŵp LTE, Whitworth House, Ashton Old Road, Manceinion M11 2WH
- Yn ogystal gall eich cynrychiolydd gysylltu â ni drwy: dpo@ltegroup.co.uk

3. Egwyddorion Diogelu Data

Mae cyfraith diogelu data'r DU yn nodi bod yn rhaid i'r wybodaeth bersonol sydd gennym:

1. Gael ei defnyddio'n gyfreithiol, yn deg ac mewn modd tryloyw
2. Cael ei chasglu a'i defnyddio at ddibenion dilys yr ydym wedi'u hegluro'n glir i chi yn unig.
3. Yn berthnasol at ddibenion yr ydym wedi son wrthy ch amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny
4. Yn gywir ac wedi'i diweddarau
5. Yn cael ei chadw cyn hired ag y bo'i hangen yn unig
6. Yn cael ei chadw'n ddiogel

4. Y Math o Wybodaeth Rydym yn eu Cadw Amdanoch Chi

Ystyr data personol, neu wybodaeth bersonol, yw unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw unigolyn. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r hunaniaeth wedi'i dynnu (data dienw). Mae

categoriau arbennig o ddata personol mwy sensitif hefyd sy'n gofyn am lefel uwch o ddiogelwch.

Mae'r categorïau o wybodaeth bersonol y gallwn ei chasglu'n cynnwys:

- Enw, oedran, rhywedd
 - Gwybodaeth rheoli carchardai a rhif carchar
 - Gwybodaeth/hanes am gyflogaeth/addysg, Rhif Dysgwr Unigryw (Ile bo'n briodol)
 - Ffotograffiaeth a fideo ohonoch chi/eich gwaith
 - Llun i'w ddefnyddio ar gyfer arholiadau, e.e. cerdyn CSCS (Ile bo'n briodol)
 - Manylion cyswllt (Ile bo'n briodol)
- Efallai y byddwn hefyd yn casglu, cadw a defnyddio'r “**categorïau arbennig**” canlynol o wybodaeth bersonol fwy sensitif:
- Iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflyrau meddygol, anafiadau neu anhawster dysgu a statws anabled
 - Ethnigrwydd/cenedligrwydd

5. Sut fyddwn ni'n Casglu eich Gwybodaeth Bersonol?

Fel arfer rydym yn casglu gwybodaeth bersonol trwy'r wybodaeth ydych chi'n ei darparu i ni yn ystod y broses ymsefydlu. Efallai y byddwn yn casglu rhagor o wybodaeth yn ystod eich cyfnod gyda Novus Cambria.

6. Sut fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch chi

Efallai y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn:

- gadael i chi ddefnyddio gwasanaethau Novus Cambria
- cydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch
- monitro cyfleoedd cyfartal
- ymgymryd ag archwiliadau
- prosesu unrhyw gwynion y gallech eu gwneud
- eich gwarchod mewn argyfwng
- ymchwilio a chynllunio yn Novus Cambria a'r Grŵp LTE

Ein seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yw:

- Perfformio tasg (addysg) er *budd y cyhoedd*
- Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol neu dan gontract*
- Mae gennym fuddiant dilys*
- Mae gennym eich *caniatâd*

7. Os nad ydych yn darparu gwybodaeth

Os nad ydych chi'n darparu gwybodaeth bersonol, efallai na allwn eich galluogi chi i ddefnyddio ein gwasanaethau, neu efallai y byddwn yn cael ein hatal rhag cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu dan gontract.

8. Gwneud penderfyniadau awtomatig

Mae gwneud penderfyniadau awtomatig yn digwydd pan fo system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniadau amdanoch fel hyn. Byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig os yw hyn yn newid.

9. Rhannu Data

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti, fel y gweithredwr gwarchodol, sefydliadau dyfarnu, cyflogwyr, a darparwyr dysgu/addysg eraill. Mae rhestr lawn o bwy rydym yn rhannu eich data personol â nhw a pham, ar gael ar gais gan y DPO. Efallai y bydd rhaid i ni ddatgelu eich gwybodaeth bersonol yn ôl y gyfraith, neu i gydymffurfio â'r gyfraith, os yw Awdurdod yn gofyn i ni.

Mae gofyn i bob trydydd parti ddilyn mesurau diogelwch priodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Rydym yn caniatáu iddynt brosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol yn unig. Rhaid iddynt wneud hyn yn unol â'n cyfarwyddiadau.

10. Ffotograffiaeth a Fideograffeg

Mae lluniau a fideos yn cael eu cymryd weithiau ar raglenni neu ddigwyddiadau Novus Cambria. Rydym yn gwneud hyn i helpu arddangos y gwaith rydym yn ei wneud fel darparwr addysg a chefnogi ein rhaglenni dysgu. Byddwn bob amser yn gofyn am eich caniatâd cyn cymryd lluniau a'u defnyddio.

11. Diogelwch Data

Mae gennym fesurau yn eu lle i helpu gwarchod eich gwybodaeth. Rydym yn cyfyngu ar fynediad at wybodaeth. Dim ond partïon awdurdodedig sydd ag angen cyfreithiol i wybod, sy'n gallu ei weld.

Mae gennym weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw dor diogelwch tybiedig. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am doriadau tybiedig lle bod angen cyfreithiol i ni wneud hynny.

12. Am ba mor hir y byddwch yn defnyddio fy ngwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen. Mae gennym **Amserlen Cadw Data** sy'n amlinellu pa mor hir rydym yn cadw gwybodaeth. Mae hon ar gael ar gais drwy gysylltu â'n DPO, gan ddefnyddio'r manylion yn [Adran 2](#).

13. Eich hawliau unigol sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol.

O dan amgylchiadau penodol, yn ôl y gyfraith, mae gennych hawl i wneud cais:

I weld eich gwybodaeth bersonol

I gywiro'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch os yw'n anghywir.

I ddileu eich gwybodaeth bersonol.

Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gallwn ni wneud hyn.

Hefyd gallwch:

Wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol

Byddwch yn ymwybodol bod yr hawliau hyn yn amodol ar amodau penodol, fel y nodir yng nghyfraith diogelu data y DU.

Os ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw geisiadau ynglŷn â'ch data personol, siaradwch ag unrhyw aelod o staff Novus Cambria, neu cysylltwch â'r DPO, gan ddefnyddio'r data yn [Adran 2](#). Os ydych chi'n gwneud cais, efallai byddwn ni angen gwybodaeth benodol gennych chi, neu eich cynrychiolydd, i gadarnhau eich hunaniaeth.

Cyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol

Trosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Gwahardd prosesu eich gwybodaeth bersonol

14. Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydym wedi ymdrin â'ch data, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn ffurfiol gyda'r adran ganlynol. Gallwch wneud hyn eich hunain, neu gall eich cynrychiolydd wneud ar eich rhan.

Ysgrifennydd y Cwmni a'r Cwnsler Cyffredinol

Grŵp LTE
Swyddfa'r Prif Swyddogion
Ashton Old Road
Manceinion
M11 2WH

Yn ogystal gall eich cynrychiolydd gysylltu â ni drwy: dpo@itegroup.co.uk

Os nad ydych chi'n dymuno trafod hyn gyda ni, neu os nad ydych chi'n hapus gyda'n hymateb, mae gennych chi'r hawl hefyd i wneud cwyn gyda'r awdurdod goruchwylio, y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Ail Lawr, Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,
Caerdydd
CF10 2HH

0330 414 6421

Hefyd gall eich cynrychiolydd gysylltu â'r
Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth trwy:

wales@ico.org.uk

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am
weithdrefn gwyno ICO ar:

<https://ico.org.uk/make-a-complaint/>